# Amgueddfa Lechi Cymru




amgueddfa cymru
national museum wales

# Gwybodaeth gefndir

Mae dynion wedi bod yn cloddio am lechi yng Nghymru ers dros 1,800 o flynyddoedd.

Dywedir mai llechen Gymreig yw'r gorau yn y byd. Mae'n hawdd i'w hollti ond eto'n gryf iawn, nodweddion perffaith ar gyfer llechi to.

Gyda gwawr y Chwyldro Diwydiannol ddiwedd y 18fed ganrif, tyfodd y diwydiant llechi ac ar ei anterth roedd yn allforio llechi Cymreig i bedwar ban byd.



## Beth welwn ni yno?

Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn hen weithdai Chwarel Dinorwig yn Gilfach Ddu. Cawsant eu hadeiladu ym 1870, ac yma y byddai'r holl waith atgyweirio yn cael ei wneud ar gyfer y chwarel, a fu, ar un adeg, yn cyflogi dros 3,000 o bobl. Mae'r Amgueddfa'n gartref i wrthrychau ac arddangosfeydd. Yn ogystal â chymorth clyweledol a phaneli dehongli, bydd aelodau brwdfrydig o staff yno hefyd yn barod i ateb eich cwestiynau.

## Pa stori ydym ni'n ei hadrodd?

Bydd cyfoeth o wybodaeth o fewn cyrraedd sy'n adrodd hanes datblygiad y diwydiant llechi dros y degawdau. Dyma rai o'r prif themâu:

**Trafnidiaeth**


Buddsoddodd perchnogion chwareli yn helaeth mewn ffyrdd a rheilffyrdd i wella'r cyswllt rhwng y chwareli a'r porthladdoedd. Ym 1778, roedd hi'n rhatach cludo llechi o Chwarel Dinorwig bob cam i Lerpwl nag i borthladd y Felinheli! Yn wreiddiol, cai'r llechi eu cario mewn basgedi ar gefn ceffylau, cyn eu cludo ar gychod i Gwm y Glo, ac ar wagenni i Gaernarfon neu'r Felinheli cyn eu llwytho ar longau. Erbyn 1824 adeiladwyd tramffordd geffylau rhwng y chwarel a'r Felinheli, ac erbyn canol y 19eg roedd trên stêm yn eu cysylltu. Gallai llwyddiant chwarel ddibynnu ar y cyswllt rheilffordd. Yn ddiweddarach, roedd y rheilffordd yn fodd o gludo'r gweithwyr i'w gwaith.

Defnyddiwyd sawl inclein mewn cyfres i drosglwyddo'r llechi i lawr ochrau serth y mynyddoedd. Disgynnai wagenni llawn i lawr yr inclein ar reiliau, a byddai'r pwysau yn tynnu wagen wag yn ôl i'r copa ar reiliau cyfochrog.

Mae sawl esiampl o wahanol ddulliau trafnidiaeth yn yr Amgueddfa. Er enghraifft, cewch weld inclein wedi'i hadnewyddu wrth ei gwaith yn rheolaidd ger yr Amgueddfa. Mae yma gwch pren a pheth o'i llwyth all ddyddio'n ôl i 1788, heb anghofio Una, injan stêm wedi'i hadnewyddu. Yn yr iard hefyd mae casgliad o wagenni, ceffylau haearn, cerbydau trên a chraeniau.











**Pŵer Dŵr a Stêm**

Yn yr Amgueddfa mae'r olwyn ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain sy'n dal i weithio. Bu'n cynhyrchu pŵer ar gyfer gweithdai Gilfach Ddu rhwng 1870 a 1925, pan ddechreuwyd defnyddio Olwyn Pelton.

Mae'r ffaith bod yr olwyn yn dal i weithio'n berffaith dros ganrif a hanner yn ddiweddarach yn brawf o dalent y peirianwyr lleol.

Cai'r pŵer o'r olwynion dŵr ei gludo i'r gweithfeydd drwy siafftiau llinell, fyddai yn eu tro yn troi'r turniau, y llifiau, y driliau a'r peiriannau eraill.

**Mecaneiddio Diwydiannol**

Pobl leol yn cloddio mewn gweithfeydd bach, bas er eu budd eu hunain oedd y chwareli cynharaf.

Mae'n debyg bod technegau mecanyddol yn cael eu defnyddio mor gynnar â'r 1820au, er enghraifft roedd Chwarel y Cilgwyn yn defnyddio 'chwimsi geffylau' i godi llechi ac yn defnyddio winshys erbyn 1827.

Roedd chwareli agored fel Dinorwig a'r Penrhyn ar ei hol hi yn troi at dechnegau modern, yn wahanol i Llechwedd, Blaenau Ffestiniog, lle defnyddiwyd trydan o ddiwedd y 19eg ganrif. Dim ond ym 1913 y gwelwyd y driliau niwmatig cyntaf yn Chwarel y Penrhyn.

Daeth injans petrol a disel i gymryd lle'r injans stêm yn y 1930au.

Erbyn hyn, defnyddir peiriannau canllaw laser i hollti llechi, sy'n cyflymu'r broses gynhyrchu'n sylweddol.









# Dirywiad y Diwydiant Llechi

Cyfrannodd nifer o ffactorau at ddirywiad y diwydiant yn yr 20fed ganrif:

- Dirwasgiad mawr yn y diwydiant adeiladu yn y 1900au
- Anghydfod diwydiannol
- Cystadleuaeth gref
- Rhai gwledydd, fel Ffrainc a'r Swistir, yn codi treth ar lechi o dramor
- Effeithiau dau ryfel byd
- Llechi'n mynd allan o ffasiwn.

Serch hynny, mae'r diwydiant yn dal i fynd heddiw gan fanteisio ar dechnolegau arloesol a gwerthu cynnyrch ym mhedwar ban byd.



Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.amgueddfacymru.ac.uk/llechi/addysg**

